

KIER

Kier Construction Western & Wales

# Tredegar Wellbeing Hub

ISSUE 01

Llywodraeth Cymru Welsh Government

GIG CYMRU NHS WALES Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

**Welcome to the first joint edition of the Tredegar Health and Well-being Centre newsletter from Kier Construction Western and Wales, in partnership with Aneurin Bevan University Health Board (ABUHB).**



**Simon Cook**
Project Lead

M: 07855 099765
E: simon.cook@kier.co.uk

## Project Overview

Kier Construction and their Design Team are working with Aneurin Bevan University Health Board to develop proposals for a new integrated Health and Well-being Centre in Tredegar on the site of the former General Hospital on Park Row. The purpose of the Centre is to ensure healthcare services are provided directly within the community from a high quality, fit for purpose building, bringing healthcare professionals, third sector and other providers under one roof to ensure a co-ordinated approach to health and well-being.

The new Centre will include:

- GP services
- Community Pharmacy
- General Dental services
- Health Board provided services, e.g. Sexual Health, Podiatry, Speech Therapy, Audiology, Mental Health, Dietetics and Health Screening
- Flying Start
- Citizens Advice
- Well Being Support

The development of the Health and Well-being Centre will retain part of the existing Hospital as the 'Heart' of the new build. This 'Heart' will be fully integrated with the existing buildings into the new design, which will have flexibility built in to it to deliver 21st Century health care planning and delivery.

The estimated capital cost of the new facility is circa £16 million and it is planned to be completed by the end of 2021, subject to Welsh Government approval.

## Project Update

The Health Board approved the Outline Business Case for the development on 21st August and that is now with the Welsh Government for approval of the next stage. The next stage will involve much more detailed planning and the preparation of detailed capital costs.

The enhanced Outline Planning Application is being progressed via Blaenau Gwent County Borough Council and subject to this being approved it is planned to demolish the majority of the existing Tredegar Hospital in the spring of 2020 with construction works scheduled to follow.

To allow this to happen, and to ensure that the existing Health Centre can continue to function, there will be some service diversion works and adaptations to the existing Health Centre taking place from late autumn 2019. There will also be some site clearance works to the rear of the hospital.

More detailed discussions will take place with local residents prior to the planned demolition period to address the overall approach and measures that will be put in place to manage noise, dust and disruption.



## Community Engagement

As works progress on site the project team will engage with the local community as well as schools. If you would like to get in touch regarding an engagement opportunity please contact Carla Rendell on Carla.rendell@kier.co.uk or TredHWBC.feedback.abb.wales.nhs.uk

An Exhibition Event was held on the 16th May at Bedwellty House giving the general public the opportunity to look at the construction plans, and design images of the Well-being Centre. People were also able to ask any questions and raise any concerns regarding the project.

The feedback from the Public Exhibition Event was generally positive. Below are some more detailed extracts from some of the feedback provided.

## What did people say?

- There is generally good support for the development of the health and well-being centre, with people being really pleased that the heart of the hospital is being kept to recognise its importance in the history of the NHS. Some people suggested that this could be the next legacy for the area.
- Some people living in the area were concerned about parking and environmental issues (e.g. dust and security) whilst the building work was taking place, but were reassured that the developers would have a discreet area in the community to park in and would have regular meetings with residents to discuss and respond to any concerns.
- There were also some comments received about the difficulty in public transport to the site, and for those who would need to travel up the hill.
- People were really keen to share their experiences of the past and to help shape thinking about the heritage of the area so it can be included in this new development. We will shortly be asking



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

members of the community to join us on an early discussion about this.

- Some people had heard there may be a bat stopping the development from going ahead. They were assured that if there is a bat that measures for its safe removal would be enabled and wouldn't stop the development from going ahead, although it could impact on timescales.

We have also been making sure that Alun Davies the Assembly Member, elected members and the Tredegar town council are updated regularly.

### What will happen next?

In the context of the more detailed planning process outlined above we will be looking to get more of the community involved in the project and have committed to:

- Develop regular newsletters
- Hold community coffee mornings
- Develop a specific residents group (for those living in the immediate area of the hospital)
- Ask people for their ideas and memories about the heritage on the area
- Connect with schools

- The next Public Engagement Event will take place in the 23th October 2019 to provide an update on these approval processes and the development of the detailed design. More details on this will be provided in due course.

### How can you stay involved?

- Keep watching in your community for newsletters like this one
- Please send your e-mail address or other contact details to:

### Health and Safety

Construction sites can be dangerous places. "At Kier Construction we endeavour to undertake all our activities with particular regard to health and safety. This not only relates to our own people working on our sites, but also to the public and users around our site. For this reason, please ensure that unauthorized persons do not enter the site itself."

Simon Cook - Project Lead

From mid-October the site will be prepared for the demolition and construction works with the installation of new perimeter fencing.

### In Partnership With...

KIER

IBI

AECOM

RVW CONSULTING

rps MAKING COMPLEX EASY

gleeds

leewakemans management

## Meet the team....



**Simon Cook**
Kier Project Lead



**Hannah Yearsley**
Kier Design Manager



**Carla Rendell**
Kier Community Benefits Manager



**Claire Harding**
ABUHB Associate Director of Engagement



**Lorraine Morgan**
ABUHB Programme Manager



**Ashleigh O'Callaghan**
ABUHB Assistant Head of Services, Blaenau Gwent Locality



Kier Construction Cymru a’r Gorllewin

# Hyb Lles Tredegar

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

GIG CYMRU NHS WALES Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

RHIFYN 01

**Croeso i’r rhifyn cyntaf o newyddlenni Canolfan Iechyd a Lles Tredegar ar y cyd gan Kier Construction Cymru a’r Gorllewin a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB).**



**Simon Cook**
Arweinydd y Prosiect
M: 07855 099765
E: simon.cook@kier.co.uk

## Trosolwg o’r Prosiect

Mae Kier Construction a’u Tîm Dylunio’n gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i ddatblygu cynigion i greu Canolfan Iechyd a Lles integredig yn Nhredegar ar safle’r hen Ysbyty Cyffredinol ar Res y Parc. Pwrpas y Ganolfan yw sicrhau bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu’n uniongyrchol yn y gymuned mewn adeilad o safon uchel sy’n addas at y pwrpas, gan ddod â gweithwyr gofal iechyd, darparwyr trydydd sector a darparwyr eraill o dan yr un to i sicrhau dull cydlynol o ddarparu iechyd a lles

Bydd y Ganolfan newydd yn cynnwys:

- Gwasanaethau Ymarferwyr Cyffredinol
- Fferyllfa Gymunedol
- Gwasanaethau Deintyddol cyffredinol
- Gwasanaethau eraill y Bwrdd Iechyd, e.e. Iechyd Rhywiol, Trin Traed, Therapi Lleferydd, Clinig Clyw, Iechyd Meddwl, Dieteteg a Sgrinio Iechyd
- Dechrau’n Deg
- Cyngor ar Bopeth
- Cymorth Lles

Wrth ddatblygu’r Ganolfan Iechyd a Lles, cedwir rhan o adeilad yr Ysbyty cyfredol fel ‘Calon’ yr adeilad newydd. Bydd y ‘Calon’ yr adeilad cyfredol yn llwyr integredig i’r dyluniad newydd, a bydd yn cynnig yr hyblygrwydd i gynllunio a darparu gofal iechyd yr 21ain Ganrif.

Cost cyfalaf amcanestynedig y cyfleuster newydd yw tua £16 miliwn, a’r bwriad yw cwblhau’r prosiect erbyn diwedd 2021, os ceir cydsyniad Llywodraeth Cymru.

## Diweddariad ar y Prosiect

Cymeradwyodd y Bwrdd Iechyd yr Achos Busnes Amlinellol ar gyfer y datblygiad ar 21 Awst ac mae’r achos bellach yn nwylo Llywodraeth Cymru i gymeradwyo’r cam nesaf. Bydd y cam nesaf yn cynnwys cynllunio mwy manwl o lawer, a pharatoi’r costau cyfalaf manwl.

Mae’r Cais Cynllunio Amlinellol manwl yn cael ei brosesu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, ac os ceir cydsyniad i’r cais, y bwriad yw dymchwel y rhan fwyaf o Ysbyty cyfredol Tredegar yng ngwanwyn 2020 a bydd y gwaith adeiladu’n dechrau wedyn.

Er mwyn caniatáu i hynny ddigwydd, ac er mwyn sicrhau y gall y Ganolfan Iechyd gyfredol barhau i weithredu yn y cyfamser, bydd angen cyflawni rhywfaint o waith gwyro gwasanaethau ac addasiadau ar y Ganolfan Iechyd gyfredol o ddiwedd hydref 2019 ymlaen. Caiff rhywfaint o waith ei gyflawni i glirio’r safle y tu ôl i’r ysbyty hefyd.

Byddwn ni’n cynnal trafodaethau mwy manwl gyda thrigolion lleol cyn y cyfnod o waith dymchwel er mwyn trafod sut y bwriedir mynd ati i gyflawni’r gwaith, a’r mesurau y byddwn yn eu rhoi ar waith i reoli sŵn, llwch ac anghyfleustra.



## Ymgysylltu â’r Gymuned

Wrth i’r gwaith fynd yn ei flaen ar y safle, bydd tîm y prosiect yn ymgysylltu â’r gymuned leol yn ogystal ag ysgolion. Os hoffech drafod cyfle i ymgysylltu â ni, e-bostiwch Carla Rendell yn Carla.rendell@ kier co.uk neu TredHWBC.feedback.abb. wales.nhs. uk

Cynhaliwyd Arddangosfa yn Nhŷ Bedwellty ar 16 Mai a oedd yn cynnig cyfle i’r cyhoedd weld y cynlluniau adeiladu a delweddau’r dylunwyr o’r Ganolfan Lles. Bu hyn yn gyfle i bobl ofyn cwestiynau a chodi unrhyw bryderon oedd ganddynt am y prosiect hefyd.

Ar y cyfan, bu’r adborth o’r Arddangosfa Gyhoeddus yn gadarnhaol. Isod mae dyfyniadau mwy manwl o’r adborth a gafwyd.

## Beth oedd gan bobl i’w ddweud?

- Ar y cyfan, mae yna gefnogaeth dda i ddatblygiad y ganolfan iechyd a lles, ac mae pobl yn falch o’r bwriad i gadw calon yr ysbyty er mwyn cydnabod ei bwysigrwydd yn hanes y GIG. Awgrymodd rhai pobl y gallai hyn greu’r etifeddiaeth nesaf ar gyfer yr ardal.
- Roedd rhai o’r bobl sy’n byw yn yr ardal yn poeni am barcio a materion amgylcheddol (e.e. llwch a diogelwch) yn ystod y gwaith adeiladu, ond rhoesom sicrwydd iddynt y byddem yn darparu ardal barcio benodol i’r datblygwyr, ac y byddem yn cynnal cyfarfodydd cyson â’r trigolion i drafod ac ymateb i unrhyw bryderon.
- Cawsom ambell i sylw hefyd am anawsterau wrth deithio i’r safle ar gludiant cyhoeddus, ac i’r bobl hynny fyddai’n gorfod teithio i fyny’r bryn.
- Roedd pobl yn awyddus iawn i rannu eu profiadau o’r gorffennol ac i helpu i gyflunio meddylfryd o ran treftadaeth yr ardal at y dyfodol fel y gellir ei chynnwys yn y datblygiad newydd yma. Byddwn ni’n gofyn i aelodau o’r gymuned ymuno â ni mewn trafodaethau cynnar am hyn cyn bo hir.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

- Roedd rhai pobl wedi clywed si y gallai ystlum atal y datblygiad rhag mynd yn ei flaen. Rhoesom sicrwydd iddynt, petai ystlum ar y safle, y byddem yn hwyluso mesurau i'w symud yn ddiogel ac na fyddai hynny'n atal y datblygiad, er y gallai effeithio ar yr amserlen.

Rydyn ni wedi bod yn rhannu diweddariadau rheolaidd ag Alun Davies, yr Aelod o'r Cynulliad, yr aelodau etholedig a chyngor tref Tredegar.

### Beth fydd y cam nesaf?

Yng nghyd-destun y broses cynllunio manylach a amlinellwyd uchod, byddwn ni'n ceisio denu mwy o bobl o'r gymuned i gysylltu â'r prosiect ac rydym wedi ymrwymo i:

- Baratoi newyddlenni rheolaidd
- Cynnal boreau coffi yn y gymuned
- Datblygu grŵp trigolion pwrpasol (i'r rhai sy'n byw yng nghyffiniau uniongyrchol yr ysbyty)
- Gofyn i bobl rannu eu syniadau a'u hatgofion am dreftadaeth yr ardal
- Cysylltu ag ysgolion
- Byddwn ni'n cynnal Achlysur Ymgysylltu â'r Cyhoedd ar 23 Hydref 2019 i rannu'r newyddion diweddaraf am y prosesau cymeradwyo a datblygiad y dyluniad manwl. Byddwn ni'n rhannu manylion pellach am hyn maes o law.

### Sut i gadw mewn cysylltiad?

- Cadwch lygad am ragor o newyddlenni fel hyn yn eich cymuned
- Anfonwch eich cyfeiriad e-bost neu fanylion cyswllt eraill at:

### Iechyd a Diogelwch

Mae safleoedd adeiladu'n gallu bod yn beryglus. "Yn Kier Construction, rydyn ni'n gwneud ein gorau glas i gyflawni ein holl weithgareddau â ffocws arbennig ar iechyd a diogelwch. Nid rhywbeth i'n pobl ein hunain sy'n gweithio ar ein safleoedd yn unig mo hyn, ond rhywbeth i'r cyhoedd a defnyddwyr o amgylch ein safleoedd hefyd. Am y rheswm hwn, cofiwch sicrhau nad oes neb yn mynd i'r safle gwaith heb awdurdod."

Simon Cook - Arweinydd y Prosiect

O ganol Hydref ymlaen, byddwn wrthi'n paratoi'r safle ar gyfer y gwaith dymchwel ac adeiladu trwy godi ffens ymyl newydd o amgylch y safle.

### Mewn partneriaeth â...

KIER
IBI
AECOM
RVW CONSULTING
rps MAKING COMPLEX EASY
gleeds
leewakemans management

## Cwrdd â'r tîm...



**Simon Cook**
Arweinydd Prosiect Kier



**Hannah Yearsley**
Rheolwr Dylunio Kier



**Carla Rendell**
Rheolwr Buddion Cymunedol Kier



**Claire Harding**
Cyfarwyddwr Cysylltu BIPAB



**Lorraine Morgan**
Rheolwr Rhaglen BIPAB



**Ashleigh O'Callaghan**
Pennaeth Gwasanaethau Cynorthwyol BIPAB, Cylch Blaenau Gwent